# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 29 Medi 2015 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Ray Bartley, Meirick Davies, Martyn Holland, Dewi Owens, Merfyn Parry a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (RM) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Cefnogi Cwsmeriaid ac Addysg (JW) Addysg (KE); Rheolwr Rhaglen (JC); Prif Gyfrifydd (RW) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Martyn Holland gysylltiad personol yn eitem 5 am ei fod yn Llywodraethwr Ysgol Bro Famau.

## 3 MATERION BRYS

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2015.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 CYNNIG CAU YSGOL RHEWL O 31 AWST 2017 A THROSGLWYDDO'R DISGYBLION PRESENNOL I YSGOL PEN BARRAS, RHUTHUN NEU YSGOL STRYD Y RHOS, RHUTHUN, YN DIBYNNU AR DDEWIS Y RHIENI.

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad yn manylu ar y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn dilyn cyhoeddi'r Rhybudd Statudol i gau Ysgol Rhewl gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pen Barras neu Ysgol Stryd y Rhos yn amodol ar ddewis y rhieni, ynghyd â ffactorau i'w hystyried cyn penderfynu ar y cynnig.

Mae'r cynnig ar gyfer Ysgol Rhewl wedi cael ei wneud yng nghyd-destun yr adolygiad o ardal ehangach Rhuthun gan ystyried addasrwydd a chyflwr safleoedd ysgolion a lleoedd dros ben a'r effaith ar gynaliadwyedd tymor hir yr ysgol. Atgoffwyd y Cabinet bod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad wedi argymell i ragor o waith i gael ei wneud yn ystod y broses ymgynghori i ymdrin â phryderon a godwyd yn ymwneud â'r safle Glasdir newydd a chynnig yr Iaith Gymraeg. Mae canfyddiadau'r gwaith hwnnw wedi ei gynnwys yn Atodiad D ac E o'r adroddiad. Cododd y Cynghorydd Merfyn Parry (aelod lleol) bryderon ynghylch pa mor ddigonol yw'r gwaith atodol o ran ymgynghori gan dynnu sylw at y diffyg gwybodaeth a ddarparwyd gan swyddogion er mwyn llywio trafodaeth ystyrlon mewn cyfarfodydd a'r anawsterau wrth alw cyfarfodydd oherwydd argaeledd unigolion allweddol. Teimlai nad oedd ymgynghori priodol wedi'i gynnal, gan ychwanegu na fu unrhyw drafodaeth o gwbl ar y cynnig diweddaraf i ddarparu cludiant yn ôl disgresiwn i'r ysgol categori 2 agosaf. O ganlyniad, gofynnodd y Cynghorydd Parry y dylid gohirio'r mater hyd nes ymgynghori pellach â rhanddeiliaid. Gofynnodd y Cabinet am sicrwydd ynglŷn â'r gwaith atodol yn ôl cyfarwyddyd archwilio ac adroddodd y swyddogion ar amserlen o gyfathrebu a arweiniodd at y canfyddiadau fel y manylir yn Atodiad D ac E i'r adroddiad. Ystyriodd y Cabinet y broses o ymgysylltu i fod yn gadarn a bod digon o wybodaeth wedi cael ei ddarparu er mwyn galluogi penderfyniad gwbl wybodus.

Tynnodd y Cynghorydd Williams sylw'r aelodau at yr adroddiad a'r prosesau statudol i'w dilyn. Ystyriodd y Cabinet y gwrthwynebiadau a nodwyd yn yr adroddiad ynghyd â'r dadleuon dros y cynnig a'r ffactorau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Talodd yr aelodau sylw arbennig i faterion a godwyd yn ymwneud â'r safle Glasdir newydd a'r effaith ar y Iaith Gymraeg fel y prif achosion o bryder -

**(1) Pryderon yn ymwneud â'r safle newydd yn Glasdir**

Mynegwyd pryderon ynglŷn â diogelwch ar y ffyrdd a dichonoldeb y datblygiad.

Mae dau asesiad diogelwch ar y ffyrdd wedi'u cynnal ar 14/08/15 (gwyliau ysgol) a 15/09/15 (tymor ysgol) a ganfu nad oedd y llwybr presennol ar gyfer disgyblion yn cerdded o Rhewl i Glasdir yn beryglus. Nid oedd yr asesiad yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol a gofynnodd y Cabinet am sicrwydd o ran diogelwch y llwybr yn y dyfodol a sicrhau bod mesurau rheoli traffig priodol yn eu lle cyn agor yr ysgolion newydd. Hefyd, codwyd yr angen i egluro y terfyn cyflymder 30 mya ar gyfer modurwyr sy'n teithio i Ruthun. Darparodd Swyddogion sicrwydd bod diogelwch y llwybr yn brif flaenoriaeth a fyddai'n cael eu cadw dan arolwg agos. Byddai asesiadau traffig a chludiant yn parhau drwy gydol datblygiad y safle wrth i amgylchiadau newid er mwyn sicrhau fod unrhyw faterion diogelwch yn cael eu nodi.

O ran dichonoldeb y datblygiad i ddarparu ar gyfer disgyblion, darparwyd sicrwydd y byddai capasiti arfaethedig y ddwy ysgol newydd yn caniatáu digon o le ar gyfer twf. Mae'r cynnig yn gysylltiedig â'r trosglwyddo disgyblion o Ysgol Rhewl i'r ysgolion newydd yn Glasdir ac ni fyddai disgwyl i ddisgyblion i symud ddwywaith mewn achos o unrhyw oedi yn y broses datblygu safle. Cytunodd y Cabinet fod y bwriad i drosglwyddo disgyblion i'r ysgolion newydd yn cael ei wneud yn glir yn y penderfyniad.

**(2) Cynnig yn achosi pryderon yn ymwneud â’r effaith ar yr Iaith Gymraeg**

Mynegwyd pryderon na allai'r cynnig Iaith Gymraeg presennol gael ei ailadrodd os yw disgyblion yn symud i un o'r ysgolion newydd. Ailadroddodd y Cynghorydd Merfyn Parry y pryderon hynny ac tra'n nodi y cynnig diweddaraf i ddarparu opsiwn i drosglwyddo disgyblion i'r ysgol categori 2 agosaf roedd yn parhau i fod yn bryderus am y diffyg ymgynghori a manylder a ddarperir i brofi a oedd yn ddewis cadarn ac fe gododd gwestiynau ynglŷn â hynny. Ceisiodd y Cabinet gael sicrwydd bod y tri cwricwlwm yn cynnig ar gyfer disgyblion y ffrwd cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog sydd o leiaf yn gyfwerth safonau a chyfleoedd ar gyfer dilyniant yn eu cyfrwng iaith ar hyn o bryd.

Ymatebodd y swyddogion i'r materion hynny fel a ganlyn -

- darparwyd cyd-destun pellach i'r cynnig iaith presennol yn yr ardal a faint o Gymraeg a gyflwynir mewn ystod o leoliadau sy'n dangos darpariaeth arall addas. Mae'r bwriad presennol yn caniatáu i rieni ddewis tri math o sefydliad er mwyn i'r disgyblion gynnal eu cyfrwng iaith ar hyn o bryd - drwy gyfrwng y Gymraeg (Pen Barras), cyfrwng Saesneg (Stryd y Rhos) a dwyieithog (Llanfair Dyffryn Clwyd). O ganlyniad, ni fyddai disgyblion dan anfantais o ran safonau a chyfleoedd ar gyfer dilyniant yn eu cyfrwng iaith presennol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu
- pe bai Cabinet yn cymeradwyo’r cynigion byddai'r swyddogion yn trafod yr ysgolion o ddewis gyda rhieni a byddai capasiti yn cael ei adeiladu i mewn i'r ysgolion newydd ar safle Glasdir a'r cynigion ar gyfer yr ysgol ardal categori 2 newydd. Roedd swyddogion yn hyderus bod gan y dair ysgol y capasiti i ddarparu ar gyfer dewisiadau rhieni i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Rhewl
- o ran yr elfen trafnidiaeth ar gyfer categori 2 fe eglurodd swyddogion ysgolion bod y Polisi Cludiant Cartref i'r Ysgol wedi’i ganiatáu ar gyfer darparu cludiant dewisol mewn achosion o gau ysgolion. Dywedwyd wrth y Cabinet y byddai'r Pennaeth Addysg yn edrych yn ffafriol ar geisiadau a wnaed o ganlyniad i gau Ysgol Rhewl a chadarnhaodd y byddai’r disgresiwn hwn yn cael ei ymestyn i frodyr a chwiorydd y disgyblion presennol - cytunodd yr aelodau bod yr elfen hon yn cael ei egluro ymhellach fel y bo'n briodol o fewn eu datrysiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Williams yr argymhelliad gyda newidiadau er mwyn egluro y byddai trosglwyddo disgyblion yn cyd-fynd ag agor yr adeiladau ysgol newydd ac y byddai ceisiadau am gludiant dewisol i'r ysgol categori 2 agosaf yn cael ei ystyried hefyd ar gyfer brodyr a chwiorydd i’r disgyblion presennol. Roedd Cabinet yn fodlon bod y cynnig yn cyflwyno’r opsiwn gorau er mwyn sicrhau safon uchel o ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*

*(a)* *yn nodi canfyddiadau'r adroddiad gwrthwynebiad;*

*(b)* *ar ôl ystyried yr uchod, yn cymeradwyo'r penderfyniad i weithredu'r cynnig i gau Ysgol Rhewl ar 31 Awst 2017 a throsglwyddo'r disgyblion i adeilad newydd Ysgol Pen Barras, Rhuthun, neu Ysgol Stryd y Rhos, Rhuthun yn dibynnu ar ddewis y rhieni, a*

*(c)* *bod ceisiadau am gludiant dewisol i'r ysgol categori 2 agosaf yn cael eu hystyried ar sail achos wrth achos, i ddisgyblion presennol Ysgol Rhewl a'u brodyr a'u chwiorydd am weddill eu haddysg gynradd.*

Ar y pwynt hwn (10.55 a.m.) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

**6 ADDASU CYNNIG YSGOL LLANFAIR AC YSGOL PENTRECELYN**

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo ymgynghoriad ar newid posibl i amserlen cynnig i gau Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn ac agor ysgol ardal newydd.

Mae ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig eisoes wedi cael ei wneud, ond yn dilyn gwaith dichonoldeb cychwynnol i'r adeilad newydd, argymhellwyd gohirio i weithredu ar y cynnig o ddeuddeg mis. O ganlyniad, gofynnwyd am gymeradwyaeth i ymgynghori â Esgobaeth Llanelwy, Cyrff Llywodraethu'r ddwy ysgol a Gweinidogion Cymru ar yr opsiwn y byddai'r ddwy ysgol yn cau ar 31 Awst 2017 yn hytrach na 2016, gyda'r Eglwys yng Nghymru yn sefydlu ysgol ardal newydd ar y safleoedd presennol ar 1 Medi 2017 yn hytrach na 2016. Byddai'r addasiad hyn yn caniatáu ar gyfer amser ychwanegol i'r ddwy ysgol i weithio'n agos gyda'i gilydd cyn uno a gallai arwain at yr ysgol ardal fod ar safleoedd ar wahân am gyfnod byrrach. Pe rhoddir cymeradwyaeth bydd y Cabinet yn ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn, ynglŷn â'r addasiad, yng nghyfarfod mis Hydref fel rhan o'r broses o benderfynu ar y cynnig. Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion argymhellwyd bod y penderfyniad yn cael ei weithredu ar unwaith.

Nododd y Cabinet y gofynion a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion ynghylch addasiadau o'r fath. Fel aelod lleol fe groesawodd yr Arweinydd y cynnig a gredai y byddai'n creu mwy o sefydlogrwydd yn y gymuned gydag amserlen realistig.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion i -*

*(a)* *ymgynghori ag Esgobaeth Llanelwy, fel cyd-gynigydd, i ofyn am eu caniatâd i wneud yr addasiad arfaethedig;*

*(b)* *cael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud yr addasiad arfaethedig;*

*(c)* *ymgynghori â chyrff llywodraethu Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair ynglŷn â'r addasiad arfaethedig, a*

(d) *cytuno bod yr argymhellion i gael eu gweithredu ar unwaith yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor, sydd wedi eu cynnwys yn y cyfansoddiad, o ran galw materion i mewn yng ngoleuni'r amgylchiadau fel y nodir yn yr adroddiad.*

**7 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 1 – 2015/16**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar gyflawni Cynllun Corfforaethol 2012 – 17 fel ag y mae ar ddiwedd chwarter 1 o 2015/16.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys tair prif elfen -

- Cynllun Corfforaethol 2012-17 - tynnwyd sylw yr aelodau at y dadansoddiad o eithriadau allweddol ac esboniad y tu ôl i'r 'statws Coch' o bob dangosydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ac ymhelaethwyd ar hynny ymhellach yn y cyfarfod
- Dangosyddion Strategol Cenedlaethol 2014/15 - dadansoddiad wedi cael ei ddarparu am berfformiad rhagorol Sir Ddinbych yn erbyn dangosyddion cenedlaethol gyda 20 yn yr hanner uchaf a 14 yn y chwartel uchaf, Sir Ddinbych hefyd gyda'r nifer lleiaf yn yr hanner isaf. 8 o ddangosyddion cenedlaethol wedi dirywio mewn perfformiad ac eglurhad y tu ôl i'r dirywiad hefyd wedi'i ddarparu
- Cofrestr Prosiectau Corfforaethol - nid oedd unrhyw brosiectau gyda statws 'Coch' a dim ond dau brosiect gyda statws 'Oren' gyda phob prosiect ar y trywydd iawn.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol -

- Canlyniad 8: Trigolion ac ymwelwyr â Sir Ddinbych gyda mynediad i rwydwaith ffyrdd diogel a reolir yn dda – byddai'r dangosydd yn gysylltiedig â chyllid cytundeb canlyniadau yn cael ei ddileu yn y dyfodol pan fydd y cyllid yn cael ei gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw. Rhagwelwyd y byddai gostyngiadau cyllideb yn cael effaith andwyol a phwysleiswyd bod angen cadw golwg agos ar y flaenoriaeth hon
- Dangosydd Strategol Cenedlaethol: SCC/002: Plant sy'n derbyn gofal yn newid ysgol - sicrhawyd bod y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro'n agos. O ystyried y garfan fechan o blant a rhesymau dilys am symud ysgol ym mhob achos ni chafodd ei ystyried yn flaenoriaeth ar gyfer gwella
- Allyriadau Carbon - Eglurodd y Cynghorydd Thompson-Hill nad oedd modd cynhyrchu gwybodaeth ar hyn o bryd o ganlyniad i broblem fawr gyda system filio newydd Nwy Prydain a oeddent yn gweithio i'w datrys. Ystyriwyd ei bod yn briodol i aros am y data llawn yn hytrach nag adrodd ar ddata rhannol ac anghywir
- Diffyg Lleoedd Ysgolion - eglurwyd bod y ffigurau yn ymwneud â nifer yr ysgolion nad oedd ganddynt ddigon o leoedd ac roedd anghydbwysedd cyffredinol yn bodoli a bod ysgolion yng ngogledd y sir yn tueddu i fod wedi gordanysgrifio gydag ysgolion yn y De gyda lleoedd dros ben
- Canran y staff sy'n derbyn arfarniad perfformiad - y ffigur hwn wedi gostwng 17% i 67% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd ac roedd hynny'n peri pryder.

Eglurodd y swyddogion bod y gostyngiad o ganlyniad i ad-drefnu staff, ond roedd disgwyl i'r ffigwr gynyddu. Byddai perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn yn cael ei herio fel rhan o'r broses herio gwasanaeth.

Croesawodd y Cabinet berfformiad rhagorol Sir Ddinbych yn y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'u hanes yn hynny o beth. Tra'n cydnabod ei bod hi dal yn gynnar yn y broses, roedd yr aelodau hefyd yn falch o nodi'r cynnydd da ar y cyfan wrth gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, nodwyd bod rhagdybiaethau yn dal i gael eu gwneud ar hyn o bryd ac roedd yn rhy gynnar i asesu effaith pwysau ar y gyllideb ar wasanaethau. Byddai darlun cliriach yn ymddangos yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Wrth symud yr argymhellion roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill hefyd yn cydnabod y pwyntiau a godwyd gan yr aelodau ac y byddai’n eu gweithredu.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 1 2015/16.*

## 8 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 2014/15

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys ac yn dangos cydymffurfiad â chyfyngiadau'r trysorlys a’r Dangosyddion Darbodus yn ystod 2014/15.

Wrth grynhoi'r adroddiad, cyfeiriodd y Cynghorydd Thompson-Hill at y cefndir economaidd ac effaith ddilynol ar weithgareddau rheoli'r trysorlys. Tynnodd sylw at y prif bwyntiau ar gyfer aelodau o ran gweithgarwch benthyca a buddsoddi, gan gynnwys y pryniant Cymhorthdal Refeniw Tai a fyddai'n arwain at arbedion sylweddol i'r Cyfrif Refeniw Tai ac yn rhoi diweddariad ar derfynu a phryniant cytundeb PFI Neuadd y Sir a oedd yn agos at gwblhau. Roedd newidiadau diweddar i drefniadau achub banciau hefyd wedi arwain at newidiadau yng ngweithgarwch buddsoddi y Cyngor i leihau risg. Mae’r holl ddangosyddion darbodus ar hyn o bryd yn ôl y disgwyl ac nid oedd unrhyw faterion i adrodd yn hynny o beth. Roedd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi ystyried yr adroddiad ac heb ddod o hyd i unrhyw faterion a oedd yn haeddu ymchwiliad pellach. Ychwanegodd y Prif Gyfrifydd drosolwg o ddangosyddion economaidd presennol a goblygiadau risg o benderfyniadau trysorlys a strategaethau a ddefnyddir i reoli'r risgiau hynny.

***PENDERFYNWYD nodi’r Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2014/15.***

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant net o £0.380m ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- 74% o arbedion y cytunwyd arnynt wedi cael eu cyflawni hyd yma (£7.3m yw'r targed)
- amrywiadau allweddol eraill wedi'u hamlygu o gyllidebau neu dargedau arbedion i feysydd gwasanaeth unigol, a
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

Codwyd y materion canlynol yn ystod y ddadl -

- roedd yr aelodau'n falch o nodi bod 74% o arbedion wedi'u cyflawni ar gyfnod mor gynnar yn y flwyddyn ariannol a llongyfarchwyd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill a'r tîm cyllid ar eu gwaith a'r cynnydd a wnaed
- cafwyd peth trafodaeth ynghylch rhinweddau cymorthdalu taliadau meysydd parcio gan gynghorau tref a dywedodd y Cynghorydd David Smith (Aelod Arweiniol) fod y sefyllfa'n cael ei adolygu'n rheolaidd
- gofynnwyd y cwestiynau ynghylch effaith cyflwyno taliadau ym Mharc Drifft Y Rhyl a chadarnhaodd y Cynghorydd Huw Jones (Aelod Arweiniol) er gwaethaf tywydd gwael fod yr incwm wedi bod yn £20k ac bod arbedion wedi'u cyflawni - er bod ymwelwyr wedi bod yn fodlon talu costau, roedd cryn wrthwynebiad yn lleol
- mewn ymateb i sicrwydd a geisir ynghylch cyflawni'r Cynllun Corfforaethol adroddodd y Prif Gyfrifydd ar y gwaith parhaus i ddiweddaru'r tybiaethau diweddaraf a chytunwyd i dderbyn adroddiad yn ôl ar y mater ym mis Tachwedd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'r Cabinet i'w ystyried a nododd yr aelodau eitem ychwanegol ar gyfer Tachwedd ar gyflawni'r Cynllun Corfforaethol fel y cytunwyd o dan yr eitem agenda flaenorol.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

### Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD*** *- dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 11 YSGOL GLAN CLWYD: DYFARNU CONTRACT

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am awdurdod i symud ymlaen ag adeiladu a chwblhau Prosiect Ysgol Glan Clwyd drwy

Ddyfarniad Contract.  Roedd y prosiect adeiladu yn cynnwys estyniad newydd a dymchwel rhannol, ailfodelu ac adnewyddu adeiladau presennol.

Croesawodd y Cabinet y prosiect cadarnhaol sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor i fuddsoddi mewn ysgolion ac roedd aelodau yn awyddus i fanylion y prosiect gael eu gwneud yn gyhoeddus.  Adroddodd y Rheolwr Rhaglen ar yr ymgyrch gyhoeddusrwydd wedi hynny er mwyn gwneud y mwyaf o elfennau cadarnhaol y prosiect drwy gyfrwng datganiadau i'r wasg, digwyddiadau a thaflenni.  O ran y cyllido darparwyd rhagor o fanylion a sicrwydd bod y prosiect yn cael ei ariannu'n llawn.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarnu contract yn ymwneud â phrosiect Ysgol Glan Clwyd i'r contractwr a enwyd, ac at werth dros dro fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 pm.